**Rediscovery Wales Youth Project**
**- based on Canadian model and BEN's concept of multi-cultural interpretation**

Using outdoor activities to introduce the wider countryside

Using the Brecon Beacons National Park combining enjoyable physical activities with the promotion of healthy living.

Developing multi-cultural interpretation of landscape features to help promote a sense of inclusion and ownership, including comparing Welsh History through the ages with aspects of the young people's countries of origin.

**Video Art Youth Project**

Follow on project to introduce countryside parks and nature reserves near Cardiff through day visits and a weekend on an Island Reserve, integrating cultural, social and environmental contexts relevant to the group.

Working with an artist to record the trip through video and other artistic mediums, e.g. photography, sketching, writing, and collecting materials.

Producing a piece of artwork to reflect what the young people have gained from their experience.

Working with rangers on the different sites to develop multi-cultural interpretation of the built and natural environment. Opportunity for young people to meet Rangers and learn about their jobs.

Introducing themes of "Homes" and "Journeys" to link the visit by following a local river from source to the estuary and comparing different home environments. e.g. comparing living in cities to living on an Island Reserve. Potential to develop global links, e.g. comparing homes in other parts of the world.

**Contact Details** : Black Environment Network. UK Office. 9 Llainwen Uchaf. Llanberis. Wales. LL55 4LL.

Director Judy Ling Wong FRSA    Administrator Pam Green

Tel/Fax 01286 870 715    Email BEN@pfrost.demon.co.uk

**Atodiad 10**

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

## DATBLYGU CYNALIADWY, Y CYNULLIAD A LLYWODRAETH LEOL

### Llywodraeth Leol a Datblygu Cynaliadwy

1. Mae gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ran allweddol i'w chwarae wrth gyflenwi agenda'r Cynulliad ar gyfer datblygu cynaliadwy. Bydd awdurdodau lleol:

- yn cyflenwi gwasanaethau lleol hanfodol

  Trwy eu cyfrifoldeb am wasanaethau allweddol fel addysg, cludiant lleol, gwasanaethau cymdeithasol, cynllunio'r defnydd o dir, amddiffyn yr amgylchedd a rheoli cefn gwlad, datblygu economaidd a gwastraff mae awdurdodau lleol yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i gynaliadwyedd.

- yn ymateb i anghenion lleol

  Gall awdurdodau lleol ddatblygu polisïau a gweithrediadau sy'n adlewyrchu pryderon y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac yn benodol gallant ymdrin ag anghenion a blaenoriaethau lleol. Fel arweinwyr eu cymunedau maent yn helpu gosod yr agenda ar gyfer y gymdogaeth.

- yn gyfrifol yn ddemocrataidd

  Mae awdurdodau lleol yn atebol i'r gymuned leol, trwy etholiadau lleol a thrwy ymgynghori eang fel ei gilydd. Bydd awdurdodau lleol yn cydweithio â'r Cynulliad er mwyn moderneiddio llywodraeth leol ymhellach.

- yn gyfrifol yn benodol am Agenda Leol 21

  Mae awdurdodau lleol yn gweithio tuag at gwblhau strategaethau Agenda Leol 21 erbyn y flwyddyn 2000.

2. Mae'r graddau y rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu cynaliadwy, a'r ffordd yr hybir cynaliadwyedd, yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Mae rhai ohonynt yn dangos y ffordd, gydag arbenigedd sylweddol i'w gynnig. Mae cyfraniad y Parciau Cenedlaethol, fel awdurdodau lleol â phwrpas arbennig, yn arbennig o bwysig. Er mwyn cefnogi ac annog polisïau a gweithrediadau cynaliadwy, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau.

### Rôl y Cynulliad mewn Datblygu Cynaliadwy

3. Dyma fydd cyfraniad y Cynulliad at ddatblygu cynaliadwy:

- adlewyrchu ac ymateb i anghenion penodol Cymru, gan amddiffyn ei hamgylchedd uchel iawn ei ansawdd ac ymdrin ag anghenion economaidd a chymdeithasol dybryd ei phobl;

- darparu fframwaith polisi ar gyfer cynaliadwyedd ac yn enwedig creu cysylltiadau rhwng meysydd polisi;
- annog a chefnogi atebion sy’n briodol yn lleol;
- darparu digon o adnoddau i gwrdd ag anghenion a ddynodwyd yn lleol.

4. Bydd angen i’r Cynulliad gydweithio â llywodraeth leol trwy’r **Cyngor Partneriaeth** er mwyn cyflawni ei amcanion ar gyfer datblygu cynaliadwy. Rydym yn rhagweld y bydd y Cynulliad yn ymgynghori’n llawn â llywodraeth leol ynglyn â’i gynllun ar gyfer datblygu cynaliadwy a, lle bo hynny’n bosibl, fe fydd yn cytuno â llywodraeth leol ar amcanion sy’n gyffredin iddynt.

5. Bydd angen i’r Cynulliad hefyd weithio’n agos â llywodraeth leol ar ei wahanol bwyllgorau pwnc, er mwyn sicrhau:

- bod y Cynulliad a llywodraeth leol yn gweithio tuag at amcanion sy’n gyffredin iddynt, lle bynnag bo hynny’n bosibl;
- bod polisïau a gweithrediadau’r Cynulliad yn gynaliadwy;
- bod polisïau a gweithrediadau’r Cynulliad yn gyflenwol ar draws y meysydd polisi;
- bod y Cynulliad yn maethu ac yn annog mentrau a ddatblygir yn lleol ac sy’n briodol i’r lleoliad.

6. Rydym yn cydnabod gwerth posibl pwyllgor sefydlog ar ddatblygu cynaliadwy i bleidio achos ei egwyddorion ac i fonitro cynnydd. Ar y llaw arall, mae’n hollbwysig ymgorffori cynaliadwyedd yn llawn yng ngwaith y Cynulliad a pheidio â’i gyfyngu i un pwyllgor.

7. Mae llywodraeth leol yn edrych ymlaen at gydweithio â’r Cynulliad i hybu Cymru gynaliadwy.

**Atodiad 11**

**Cyngor Gwynedd**

## DATBLYGIAD CYNALIADWY, Y CYNULLIAD A CHYNGOR GWYNEDD

### Cyd-destun

1.1 Mae amcanion cynaliadwyedd wrth galon holl weithgareddau Cyngor Gwynedd.

1.2 Nôd y Cyngor yw "gwasanaethu trigolion yr ardal trwy:

- wella ansawdd eu bywydau
- diogelu a datblygu cymunedau’r Sir
- gwarchod ei chymeriad unigryw o ran iaith, diwylliant ac amgylchedd".

1.3 Mae’r nôd clir hwn a’r amcan strategol i warchod a gwella’r amgylchedd naturiol ar lefel leol a chyfrannu yn unol â’i allu tuag at ddiogelu’r amgylchedd byd eang, yn gonglfaen i Gynllun Darparu Gwasanaeth Cyngor Gwynedd.

1.4 Mae Cyngor Gwynedd yn ymateb i’r sialens y mae datblygu cynaliadwy a phroses Agenda Lleol 21 yn eu cyflwyno. Mae y gwaith ar yr elfennau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gweld cynnydd da ac maent yn cael eu integreiddio er mwyn mabwysiadu Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy erbyn diwedd 2000.

1.5 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gydweithio a rhannu blaenoriaethau gyda y sectorau cyhoeddus, busnes a gwirfoddol ac mae ymdrech i roi llais blaenllaw a chanolog i gymunedau lleol wrth asesu anghenion ac ymateb i’r cyfleon.

1.6 Dan arweiniad Corfforiaethol mae’r elfennau yma yn cael eu integreiddio a’r gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau fod amcanion cynaliadwy yn ganolog, ac yn sail i holl bolisiau, gweithrediadau a darpariaeth gwasanaethau y Cyngor. Bydd mesur cynnydd o hyn yn ffurfio rhan o feini prawf proses Gwerth Gorau y Cyngor.

1.7 Mae’r Cyngor yn awyddus i fabwysiadu ymarfer da mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus ac fel rhan o hyn mae Cyngor Gwynedd (yr unig Gyngor o Gymru) yn cydweithio ar gynllun peilot "CLIP" ar ddangosyddion cynaliadwy.

1.8 Elfen allweddol o raglen y Cyngor yw datblygu rhaglenni hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy ac Agenda Leol 21o fewn y Cyngor, y sector fusnes a’r cyhoedd.

## 2. Yr Elfen Gymdeithasol

2.1 Bydd drafft o Strategaeth Cynhwysiad Cymdeithasol a Gwrth Dlodi yn barod diwedd Chwefror 2000. Drwy broses o ymgynghori gyda cymunedau ar draws yr ardal, yr amcan yw gosod targedau i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lleddfu effaith tlodi.

2.2 Mae’r Strategaeth yn cyd-blethu elfennau cymdeithasol eraill megis; Trosedd ac Anrhefn, datblygu’r cysylltiadau gyda iechyd, y Strategaeth Plant a Chyfle Cyfartal, cynlluniau Llythrennedd a Rhifedd i deuluoedd. Hyderir y bydd y Strategaeth yn creu cyfleoedd i bawb yng Ngwynedd, yn enwedig y rhai difreintedig o fewn cymdeithas i wella eu hansawdd bywyd. Mae llwyddiant rhaglen o’r fath yn dibynnu ar gyfeirio adnoddau i raglenni cymunedol cynaliadwy.

## 3 Stiwardiaeth Amgylcheddol

3.1 Bydd drafft o’r Strategaeth Stiwardiaeth Amgylcheddol yn barod yn ystod haf eleni. Ei sail yw ffurfio partneriaethau gyda chyrff statudol, y sector fusnes, y sector wirfoddol a’r cyhoedd i baratoi a gweithredu cynlluniau bioamrywiaeth, trafnidiaeth cyhoeddus, gwaredu gwastraff a chadwraeth ynni a hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyfriflodeb ar faterion amgylcheddol.

## 4. Economi Cynaliadwy

4.1 Mae egwyddorion cynaliadwyedd yn treiddio yn ddwfn trwy raglenni economaidd ac adfywio y Cyngor. Ymdrechir i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus trwy ddatblygu rhaglenni positif sydd yn hybu

menter lleol a chefnogi busnesau lleol i fod yn gystadleuol.

4.2 Mae lleihau colliant ariannol o'r economi leol, ychwanegu gwerth i gynnyrch lleol a meithrin cydweithrediad yn ganolog i'r Strategaeth Datblygu Economaidd sydd yn y broses o gael ei hadolygu. Mae cryfhau y sectorau sydd a photensial o arall-gyfeirio a chreu twf economaidd cynaliadwy megis technoleg gwybodaeth a twristiaeth werdd hefyd yn allweddol.

4.3 Gwelir ymdrechion Cyngor Gwynedd trwy yr ystod blaengar o raglenni adfywio sydd eisioes ar y gweill mewn partneriaeth gyda rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig yr ardal, er engrhaifft Cynllun Ardal y Lechen. Mae gweithio o fewn cyd-destyn datblygiad cynaliadwy yn rhoi cyfle i'r cymunedau yma integreiddio eu anghenion a'u gobeithion economaidd a sicrhau cysondeb yn hytrach na gwrthdaro gyda polisiau a rhaglenni cymdeithasol ac amgylcheddol. Fe welir hyn yn glir mewn prosiectau megis Menter Gogledd Eryri.

## 5. Diweddglo

5.1 Mae Cyngor Gwynedd Gwynedd y cyntaf i gyfaddef fod llawer o waith i'w wneud eto ond mae cryn dipyn o'r sylfaen yn ei le. Mi fyddai llawer o grwpiau ac unigolion yn dymuno gweld awdurdodau lleol yn symyd ynghynt ac er efallai fod hon yn feirniadaeth deg rhaid cropian cyn cerdded. Y sialens yn awr yw sicrhau fod angen i'r geiriau droi yn weithredu a hynny mewn modd cyson trwy yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. *Mae angen dangos fod y gymuned yn rhan o'r broses o osod blaenoriaethau a darparu gwasanaethau sydd yn ymateb i anghenion lleol. Mae cyfleon i wneud hyn yn codi yn y dyfodol agos megis y Cynllun Unedol, Cynllun Trafnidiaeth Lleol a Rhaglen Amcan 1.*

5.2 Mae datblygu cynaliadwy yn cynnig cyfleon i awdurdodau lleol a'u holl bartneriaid i symud tuag at dulliau modern o weithredu fydd yn ymateb i anghenion lleol a darparu gwasanaethau effeithiol. Mae'r sialens yn un sylweddol ac yn un na all awdurdodau gyflawni eu hunain. *Rhaid cael cydweithrediad ar lefel lleol a chefnogaeth a dealltwriaeth o'r sefyllfa leol ar lefel genedlaethol os am lwyddo i gael y maen i'r wal.*

## 6. Rol y Cynulliad Cenedlaethol

6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu y dyletswydd sydd gan y Cynulliad ar faterion datblygu cynaliadwy ac yn croesawu y ddogfen ymgynghorol. Mae'r teitl yn crynhoi y sialens sydd o'n blaenau *. I ddysgu byw yn wahanol mae angen bod o ddifrif ynglyn a gweithredu yn gynaliadwy.* Wnaiff rhetoreg ddim y tro. *Rhaid dangos fod yr egwyddorion yn treiddio i galon ein gwaith ni oll a rhaid sicrhau cysondeb ymhob agwedd o ddarparu gwasanaeth.*

6.2 Un o'r agweddau allweddol yw gwynebu y diffyg ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy ar bob lefel. Mae'r sialens o newid meddylfryd yn un sylweddol a rhaid i'r Cynulliad a phob sector sy'n gweithio gyda nhw fuddsoddi amser ac arian i gyrraedd y nod hwn. *Rhaid cadw y syniadaeth yn hawdd i'w ddeall a'i wneud yn berthnasol i fywydau pob dydd pob un ohonom.* Mae lle i wella dulliau ymgynghori a sicrhau cyfranogiad y cyhoedd wrth ddatblygu Agenda Lleol 21 ac mae rol y cynulliad yn allweddol i hyn. *Rhaid i'r awdurdodau perthnasol i gyd fuddsoddi i ddangos y ffordd a bydd angen cefnogaeth gryf a chymorth gan y Cynulliad i gyflawni hyn.*

6.3 *I sicrhau llwyddiant rhaid i'r cynulliad ac awdurdodau lleol osod blaenoriaethau cynaliadwyedd clir.* Rhaid cymeryd camau i sicrhau fod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael ei integreiddio i mewn i'r holl ganllawiau gweithredu ac *fod adnoddau yn cael eu cyfeirio i gynlluniau sydd yn cwrdd a meini prawf sy'n sicrhau cynaliadwyedd.*

6.4 Mae hefyd angen cofio fod Cymru yn wlad o amrywiaeth. Mae'r egwyddorion yn gyson ond nid yw'r camau i sicrhau datblygu cynaliadwy yng nghanol Caerdydd yr un fath a'r rhai sydd yn berthnasol i ardaloedd gwledig difreintiedig Gogledd Orllewin Cymru. Rhaid cadw hyn mewn cof wrth flaenoriaethu adnoddau ac wrth gymharu cynnydd ar draws Cymru.

6.5 *Nid cyfrifoldeb un adain arbennig ddylai cynaliadwyedd fod.* Bydd angen uned i fonitro cynnydd ac i roi arweiniad a chanllawiau ond *dylai fod yr egwyddorion yn cael eu integreiddio i'r holl bolisiau a gwasanaethau.* Os yw hyn yn llwyddiant dim ond unwaith y dylai awdurdodau lleol etc. baratoi strategaeth cynaliadwyedd. O fewn 3 mlynedd dylai yr egwyddorion fod wedi eu integreiddio yn rhan o feddylfryd pob dogfen a gwasanaeth. Lle gwell i ddechrau nac wrth baratoi Cynlluniau Corfforiaethol, Gwerth Gorau, Cynlluniau Datblygu Unedol, a Strategaethau Datblygu Economaidd ac Amcan 1 yr awdurdodau lleol

Gellir cael mwy o wybodaeth ar brofiadau Cyngor Gwynedd trwy gysylltu a:

Clive James - Prif Swyddog Polisi Corfforiaethol - clivej@gwynedd.gov.uk - (01286) 679501

Aled Davies - Rheolwr Polisi Cynllunio - aleddavies@gwynedd.gov.uk - (01286) 679372

AD/090200 Pwyllgor Rhanbarth

**Atodiad 12**

**Cyngor Sir Ynys Môn**

**"GWEITHIO GYDA'N GILYDD AR EIN YNYS HEDDIW I DDIOGELU Y BYD AM YFORY"**

Hwn yw hysbysair agenda Leol 21 Cyngor Sir Ynys Mon. Beth ydych chi wedi darganfod mewn ymateb i'r sialens?

Yn 1996 penderfynwyd ail-drefnu ein awdurdodau lleol .... a sefydlogogodd y sefyllfa yn aradeg......

**Rhan Un**

**"Trefn ar bethau"** - wedi arwain tuag at cydnabyddiaeth o dan gynllun LA-EMAS.

Mae llawer angen i'w wneud - polisi egni, trefniadau cludiant, ymuno syniadau, cynlluniau cymundedol/ proses llywodraethol.

**Rhan Dau**

Mae Troi Allan tuag at gymunedau wedi cynorthwyo yn y sialens o ddatblygiadau cynaladwy.

Mae'r Sialens yn parhau i:

- Fynd ymhellach na'r rhetoreg o ddatblygiadau cynaladwy

- Cyfarthrebu datblygiadau cynaladwy mewn ffyrdd hawdd i'w ddeall.

**Cynulliad Cenedlaethol**

Angen i gyfosod y pwerau rheolaidd (cynllunio/rheolaeth amgylcheddol, Gwarchod y Cyhoedd) gyda chynlluniadau proactif i.e. grantiau cludiant, grantiau datblygu economaidd (amgylchedd) / cymhelliadau.

Hyrwyddo am ymarfer gorau a rhwydwaith.

Sicrhau fod gweithrediadau "cynaladwy" yn symud i ganol creu polisiau a gweithrediadau - dim yn hawdd bob tro!.

Rhestr of gyfleoedd i ddod:

- Prosesau Cynllunio Cymunedol
- Gweithredu Gwerth Gorau
- Cynlluniau Datblygu Unedol
- Cynlluniau Cludiant Lleol
- Cynlluniau Gweithredu Bio-amrywiaeth Lleol
- Strategaethau Datblygu Economaidd/Rhaglen Amcan Un

a.y.y.b a.y.y.b

Gellir derbyn rhagor o wybodaeth ar brofiadau Ynys Mon gan

Alwena Hughes Swyddog Agenda Lleol 21

(CAHL@anglesey.gov.uk)

Martin Eaglestone Prif Swyddog Cynllunio

(MEXPL@anglesey.gov.uk)

**Atodiad 13**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU - DATBLYGU CYNALADWY

CYFARFOD CYHOEDDUS Y PWYLLGOR RHANBARTHOL

CHWEFROR 11eg 2000 - PLAS TAN Y BWLCH

**Cyflwynwyd gan: AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y drafodaeth o sut gall y Cynulliad 'hybu datblygu cynaladwy wrth arfer ei ddyletswyddau'.

Un o addewidion cynnar yr Awdurdod ym mis Mehefin 1996 oedd 'y dylai'r egwyddor o gynaladwyedd fod yn ganolog i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni'r Awdurdod hwn yn y dyfodol'. Yn dilyn hyn penodwyd aelod o staff ym 1997 a'i brif ddyletswydd oedd 'cyflwyno'r egwyddor o gynaladwyedd i ddatblygiad polisïau corfforaethol yr Awdurdod'.

Ym mis Tachwedd 1998 mabwysiadwyd datganiad ar y cyd gan y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ar Gynaladwyedd a Gwaith ar Agenda Lleol 21 (amgaeëdig).

Mae'r sylwadau canlynol wedi codi yn sgîl y digwyddiadau diweddar hyn. Fe'u rhoddir o dan bedwar pennawd, sef codi ymwybyddiaeth, gweithio gyda'n gilydd, gweithio gyda chymunedau ac egluro cyfrifoldebau.

**Codi Ymwybyddiaeth**

Y peth pwysicaf yw **codi ymwybyddiaeth** am beth yn union a olygir gan gynaladwyedd, a'r hyn y gall ei gynnig. Mae'n rhyfeddol bod cymaint o gamddealltwriaeth yn dal yn bodoli yngln â chynaladwyedd. Bu APCE yn cynnal seminarau ar gynaladwyedd ar gyfer ei Aelodau i gyd, 40 o'i staff uwch, a hyfforddiant grp i bob adran. Cymysgedd o waith theori ac ymarferol oedd y rhain; cafodd pob adran gyfle i baratoi cynlluniau gweithredu ar gyfer y dyfodol i wella perfformiad cynaladwyedd yr adran. Bwriad y cynlluniau hyn oedd sicrhau na fyddent yn meddwl am 'gynaladwyedd' fel term sy'n gyfystyr â'r amgylchedd yn unig, a'i fod yn golygu treiddio'n ddyfnach na'r materion economaidd/cymdeithasol/amgylcheddol ac at elfennau fel cyfraniad yr unigolyn a thegwch. Fel hyn gall staff fod yn fwy cynaladwy am fwy o'u hamser yn y gwaith ac yn eu hamser rhydd. Gyda'r ddealltwriaeth hon, gallant chwarae rhan bwysig wrth helpu eraill, yn unigolion, cymunedau, sefydliadau neu fusnesau, i wneud newidiadau tebyg.

Dylai'r Cynulliad felly wneud yn sir fod ei Aelodau a'i staff i gyd hefyd yn deall ystyr cynaladwyedd, er mwyn iddynt gyflwyno'r cysyniad i'w harferion gwaith ac yn eu tro ddylanwadu a dwyn perswâd ar eraill i wneud yr un fath. Golyga hyn ymrwymo cryn dipyn o amser ac adnoddau at ddibenion hyfforddi.

Dylai'r Cynulliad hefyd ddefnyddio ei ddylanwad i sicrhau fod pawb y bydd yn gweithio â nhw hefyd yn deall ystyr cynaladwyedd. Mae dirfawr angen hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o fewn sefydliadau'r sector preifat a'r sector gyhoeddus, ac yn wir ymhlith cymdeithas yn gyffredinol. Ni allaf orbwysleisio hyn.

**Gweithio Gyda'n Gilydd**

Mae'n rhaid i'r Cynulliad ddeall fod cynaladwyedd yn gysyniad unigryw y gellir ei ddefnyddio fel tir canol pan fo gofynion pobl yn gwrthdaro. Yn rhy aml o lawer, bydd nifer o sefydliadau a'r bobl o'u mewn yn gweithio'n ddygn iawn a'u bwriad yn dda, ond ysywaeth yn gweithio'n groes i'w cydweithwyr mewn

sefydliadau eraill, ac i'r rhai yn yr un sefydliad â nhw hyd yn oed. Os llwyddir i ddeall ystyr cynaladwyedd yn iawn, gall pawb weithio ar dir cyffredin, lle y gallant gyfarfod a thrafod syniadau a dod o hyd i atebion cadarnhaol yn ddi-feth. Byddai'n rhaid cyfaddawdu rywfaint er mwyn gweithio yn y modd hwn, a chymryd cam i geisio deall safbwynt y llall. Bu llawer o drin a thrafod yr angen ar gyfer 'ffyrdd newydd o weithio' a 'phartneriaethau' yn ddiweddar, heb roi digon o sylw a phwyslais ar godi lefel sgiliau'r rhai sy'n rhan o'r broses er mwyn deall a gweithredu'r ffyrdd newydd hyn o weithio.

Mae'n rhaid i'r Cynulliad hyrwyddo cynaladwyedd fel man cychwyn i'w HOLL strategau. Fe welir gormod o syniadau bratiog wrth i bawb geisio ymdopi â mentrau newydd megis Cynllunio Cymunedol, Gwerth Gorau, Gwell Iechyd Gwell Cymru, Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a hyd yn oed Agenda Leol 21. Gan nad oes dealltwriaeth eang o gynaladwyedd, rydym yn colli cyfle i gydlynu'r strategau gwahanol hyn er mwyn iddynt elwa ar ei gilydd a gweithio at weledigaeth lawnach. Cafwyd trafferthion gyda'r Cynllun Datblygu Economaidd Cenedlaethol, Dogfen Raglennu Sengl Amcan 1 a'r Cynllun Datblygu Gwledig, ymysg eraill, yn sgîl y diffyg cydlyniad a chyfeiriad cyffredinol hwn.

Mater sydd o bwys arbennig i'r Awdurdod hwn yw Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, ni roddir digon o bwyslais arno fel cyfrwng y gallai arbenigwyr o wahanol feysydd fanteisio arno, er mwyn cydweithio mewn ffyrdd newydd i ddod â buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylchedd i ardaloedd gwledig.

Felly hefyd mae'n rhaid i Ddogfen Raglennu Sengl Amcan 1 roi pwyslais ar dwf GDP priodol yn hytrach na thwf economaidd waeth beth fo'r pris.

**Gweithio gyda Chymunedau**

I'r rhan fwyaf o awdurdodau dyma'r elfen anoddach a'r mwyaf aneglur o gynaladwyedd. Mae angen cryn gymorth i hwyluso'r broses hon. Mae'n amlwg fod nawdd yn dibynnu fwyfwy ar gefnogaeth y cymunedau lleol, ac yn wir eu cyfraniad, a da o beth yw hynny. Mae hon yn broses barhaus y mae'n rhaid ei gweu i waith beunyddiol yr awdurdodau lleol yn hytrach na'i thrin fel ôl-ystyriaeth ar ôl cwblhau popeth arall.

**Egluro cyfrifoldebau**

Dylai'r Cynulliad fynnu bod Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn hybu datblygu cynaladwy o fewn eu gwaith. Dylai hefyd ystyried osod dyletswydd tebyg ar awdurdodau lleol. Dyma'r unig ffordd y bydd sefydliadau yn rhoi'r sylw haeddiannol i gynaladwyedd. Mae'r sylw a roddwyd i'r broses Gwerth Gorau, sy'n gyfrifoldeb statudol, yn dystiolaeth o hyn.

## AWDURDODAU Y PARCIAU CENEDLAETHOL CYMREIG

## DATGANIAD AR GYNALADWYEDD A GWAITH AGENDA LEOL 21

### CEFNDIR

Mae'r tri Pharc Cenedlaethol Cymreig yn croesawu'r flaenoriaeth sy'n cael ei roi gan y Llywodraeth i'r pwnc hwn sy'n cael ei weld yn gynyddol, fel y dylai, i fod yn egwyddor arweiniol ar gyfer pob gweithgarwch oddi mewn ac allan i lywodraeth. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd gan y Cynulliad

Cymreig ddyletswydd i hybu datblygiad cynaladwy.

Mae Cynaladwyedd ac Agenda Leol 21 yn gofyn integreiddio'r holl bryderon cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn anad dim, eu pwrpas yw sicrhau fod ansawdd ein bywydau yn cael ei warchod a'i wella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mewn ffordd teg a chyfiawn. Nid yw mynd ar drywydd twf economiadd dilyffethair a safonau byw sy'n codi'n uwch o hyd yn gyson â hyn. Gall twf economiadd roi camargraff ynglþn â lles y cyhoedd yn gyffredinol. Byddai unrhyw ffon fesur o werth yn rhoi sylw i asedau amgylcheddol a chymdeithasol wrth ystyried lles pobl - nid llwyddiant materol yn unig.

**YMRWYMIAD**

Yn eu hymrwymiad i Gynaladwyedd ac Agenda Leol 21, mae Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol yn ymrwymo i ymgynghori a gweithio gyda eu cymunedau, sefydliadau lleol, cyrff amgylcheddol perthnasol, awdurdodau lleol eraill a'u cymdeithasau, a'r llywodraeth genedlaethol i:benderfynu

- pa gamau ddylid eu cymryd i gefnogi ymdrechion eraill, a
- pha weithgareddau arbennig y dylai'r Parciau Cenedlaethol arwain arnynt.

Fel rhan o lywodraeth leol, bydd y Parciau Cenedlaethol yn cymryd rhan yn y broses Agenda Leol 21 ac yn annog eraill i wneud yr un peth.

Bydd ein gwaith yn debygol o gynnwys mentrau ar:

- Ffermio a choedwigaeth gynaladwy
- Rheolaeth ymwelwyr a thwristiaeth werdd
- Gweithredu lleol ar fioamrywiaeth
- Gweithio'n agosach gyda phobl mewn ardaloedd gwledig
- Cynnal a gwella hynodrwydd lleol

**Yn enwedig, bydd gwaith y Parciau Cenedlaethol ar Gynaladwyedd ac Agenda Leol 21:**

***Gyda'r gymuned leol:***

- Yn cynnwys pobl leol yn natblygiad polisïau priodol ac yn cydnabod cryfder a gwerth dyheadau a sgiliau lleol yn ogystal â phwysigrwydd dynodiadau ac agweddau cenedlaethol.
- Yn ceisio sicrhau fod gan bob sector o'r boblogaeth leol gyfle i gymryd rhan yn y broses hon.
- Yn cynorthwyo cymunedau lleol mewn Parciau Cenedlaethol i gwrdd ag oblygiadau datblygiad cynaladwy er gwaethaf unrhyw rwystrau oherwydd eu natur anghysbell neu sylfaen economaidd cul.

***fewn yr Awdurdodau:***

- fewn Deddf yr Amgylchedd 1995, sicrhau fod datblygiad cynaladwy yn brif egwyddor wrth wraidd holl waith yr awdurdodau.
- Sicrhau fod gweithdrefnau mewnol yn eu lle i archwilio a diwygio arferion mewnol, i godi ymwybyddiaeth aelodau a swyddogion ar gynaladwyedd, i asesu oblygiadau cynaladwyedd eu cynlluniau, polisïau a rhaglenni, ac i fonitro a mesur gwerth y gweithdrefnau hyn.

***Gydag eraill:***

- Gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, cyrff eraill, busnesau ac ymwelwyr i geisio integreiddio a chysoni eu gweithgareddau tra'n gwneud y mwyaf o gyrchu at gynaladwyedd ac amcanion y Parciau Cenedlaethol.
- Ar y cyd gyda'r grwpiau uchod a'r gymuned leol, sicrhau fod eu Cynlluniau Rheoli yn gwbl seiliedig ar egwyddorion cynaladwyedd.
- Gweithio gyda chyrff a llywodraeth genedlaethol i gyflawni datblygiad cynaladwy.
- Cefnogi mentrau Agenda Leol 21 yn eu hardaloedd.Ionawr 1999
- Rydym yn cytuno y bydd 'y Parciau Cenedlaethol yn medru gweithredu fel modelau ar gyfer rheolaeth gynaladwy ar gefn gwlad ehangach' (Cyfleon am Newid paragraff 78). Mae ein dau bwrpas - i warchod a gwella'r amgylchedd, bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol ac i hybu dealltwriaeth a mwynhad o'u nodweddion arbennig - ynghyd â'r dyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol trwy'r ddau bwrpas hwn - yn gosod sylfaen statudol gref i Awdurdodau y Parciau dros y fath weithredu.

Ionawr 1999

**Annex 14**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**The Snowdonia Society**

**Sustainable Development - what it means for Wales**

Consultation meeting at Plas Tan y Bwlch 11th February 2000

Contrary to what some people believe, Sustainable Development is NOT another term for "business as usual". It is a radical, new model for development, which recognises that our environment is NOT expendable, but is a once-and-for-all capital endowment which we need to steward responsibly, and hand on to future generations in at least as healthy a state as we inherited it.

As Saunders Lewis wrote: *"Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad*

*I'w traddodi i'm plant, ac i blant fy mhlant*

*Yn dreftadaeth dragwyddol"*

The National Assembly for Wales is the first ever Parliament or Assembly which has a legal duty to promote specifically sustainable development. This provides a huge opportunity for the Assembly to integrate different areas of policy, and to find more sustainable ways of living which can be a model for other parts of Britain and the rest of the world. If the philosophy of sustainable development is incorporated, as it should be, into all our decision making, I submit that the consequences will be profound.

Within a four-minute time limit, I cannot hope do more than scratch the surface of what sustainable development should mean in practice. But I would draw your attention to the chapter by Prof Gareth Wyn Jones in the IWA's book "The National Assembly Agenda". That chapter presents a radical agenda for the future for Wales, and I would suggest that, if the National Assembly does its work on sustainable development effectively, it will end up accepting many of the ideas outlined in it.

Clearly, sustainable development involves tackling very physical, concrete problems such as global warming, ozone depletion and the overfishing of the oceans.

But we need to realise that there is more to our life that mere physical processes - life is about more than just keeping body and mind together. At last year's National Park Societies Conference, Lord Judd, the former Overseas Development Minister, said (and I paraphrase):

*"In an increasingly technical and stressed-out Society, we need the opportunity for real recreation, enjoyment and fulfilment in the richness of creation. We live in a quantitative culture, and the spiritual side of life is waning. But what is the purpose of building up a strong economy, other than to enable people to live creatively, and to go to their graves fulfilled? This should be the philosophical basis of the National Parks movement."*

That is why National Parks are an essential part of sustainable development. That is why the National Assembly needs to work with National Park Authorities, to support them in terms of both finance and policy, and in making National Parks "greenprints" of sustainable development for the rest of the country, pioneering sustainable solutions which may be appropriate for rest of the country if they are shown to work.

At the same time, we recognise that it is impossible to have sustainable development in just three areas of Wales, and non-sustainable development outside. If Wales as a whole is to follow the path of sustainable development, there need to be, for example, clear policies along the following lines:

- An energy policy which puts the emphasis on conservation
- A transport policy which seeks to hold back the growth of car transport, and which promotes walking, cycling and public transport
- Agricultural and forestry policies which put the emphasis on low input, but high quality, sustainable production, underpinned by agri-environmental schemes
- A waste management strategy which puts the emphasis on waste minimisation, recycling and reuse
- Policies to manage the demand for aggregates, particularly primary aggregates
- Planning decisions to take account of sustainability

I welcome the fact that this consultation meeting is being held today, but if the National Assembly is to fulfil its obligation to promote sustainable development, this will have to be the start of a continual process of recognition that we are utterly dependent on our environment for everything we do and are. It must be one of the highest priorities of government to ensure that that environment is protected.

Rory Francis, 17th January 2000

**Atodiad 15**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru**

# CBI WALES SUBMISSION TO THE

# NATIONAL ASSEMBLY
# SUSTAINABLE DEVELOPMENT ROADSHOW

| |
|---|
| CBI WALES BELIEVES<br><br>" SUSTAINABILITY MEANS AN ENVIRONMENT IN WHICH OUR EXISTING BUSINESSES CAN PROSPER AND GROW"<br><br>CBI Wales National Assembly Business Manifesto "the business challenge" |

## Principles of Sustainable Development

1. The National Assembly's role is to set a strategic, long term and consistent policy framework for sustainable development.

2. The National Assembly needs to support business' fundamental role of wealth creation, job creation, training and a continuously improved offering of services and products, in sustainable development.

3. The National Assembly must meet business' needs for the appropriate, fair and stable application of regulations and other policy measures.

4. Business contributes to sustainable development through the effective use of resources and the encouragement of eco-efficiency.

5. The National Assembly and Business need to work together to set measurable goals to allow the monitoring of progress in sustainable development.

6. Successful reporting comes from a clear understanding by companies of how they need to explain themselves to their various constituencies. This agenda should be driven by business, on a voluntary basis and not made mandatory through legislation.

7. CBI Wales stresses that constant dialogue and the interchange of ideas and experience are fundamental to sustainable development.

8. Business-led voluntary initiatives must provide the main driver for market transformation.

9. The National Assembly and business must work together to meet consumer needs for information and education. Consumers need the information, incentives and scope to make informed choices to meet the needs of sustainable development.

10. International growth, based on open trade and investment, provides the conditions for improved economic prosperity, environmental protection and social progress - the mutually reinforcing goals of sustainable development. Dynamic and innovative business will help to supply the leadership critical to sustainable development globally.

11. The aim of transport policy should be to create a high quality, low cost, reliable, flexible, safe and efficient transport system that maximises its contribution to economic growth while minimising its social and environmental cost, based on three key strands: more efficient use of transport, increased investment and fiscal reform.

**Atodiad 16**

**NFU Cymru-Wales**

**<u>CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU – YMGYNGHORIAD AR DDATBLYGIAD CYNALIADWY</u>**

Mae NFU Cymru-Wales yn croesawu parodrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i agor yn gynnar y broses ymgynghori, ac i dderbyn ei safbwyntiau ynglyn â sut y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru weithredu ei gyfrifoldeb o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yng Nghymru. Mae NFU Cymru-Wales yn ystyried datblygiad cynaliadwy fel pwnc sydd angen agwedd gyfannol a phartneriaeth yn y Llywodraeth, ac felly mae'r NFU yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl.

**<u>Beth ddylai'r Cynulliad ei wneud i sicrhau y gall gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy?</u>**

Mae Datblygiad cynaliadwy yn ddyrys oherwydd ei fod yn 'bopeth i bob un' a bydd ei ddehongliad yn amrywio yn ôl diddordeb. Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydnabod y bydd amrywiol ddiddordebau â disgwyliadau gwahanol, ac y bydd angen iddo egluro ac amlygu'r sefyllfa. Rhagwelir y sefydlir fforwm datblygiad cynaliadwy Cymreig a byddai NFU Cymru-Wales yn dymuno bod yn rhan o hyn. Mae NFU Cymru-Wales yn cytuno y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatblygu arwyddion o ddatblygiad cynaliadwy er mwyn datgymalu'r cydsyniad i rannau cydrannol.

**<u>Beth yw'r prif bynciau cynaliadwyaeth y mae angen i'r Cynulliad ymdrin â hwy?</u>**

Mae strategaeth y DU wedi dynodi pedwar amcan ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Ei fod felly yn ddatblygiad sy'n:-

- Cynnal lefelau sefydlog uchel o dwf economaidd a chyflogaeth
- Cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb

- Amddiffyniad effeithiol o’r amgylchedd
- Defnydd doeth o adnoddau naturiol

Bydd rhaid i gynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnwys y rhain, amcanion sy’n adlewyrchu rhesymeg economaidd ganolog datblygiad cynaliadwy. Mae NFU Cymru-Wales yn dymuno pwysleisio na ddylid ystyried datblygiad cynaliadwy fel agwedd o ddatblygiad sydd ynghlwm ag achos amgylcheddol. Yn ddatblygiad o’r thema yma, mae NFU Cymru-Wales yn credu fod rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau fod trafodaethau polisi yn cynnwys y ‘stôl dri throed’ datblygiad cynaliadwy; materion economaidd, cymdeithas ac amgylcheddol. Mae hyn yn bwysig oherwydd fod gan y diwydiant amaeth brofiad o gyfrannu, er enghraifft, at yr elfen amgylcheddol, a’r costau sydd ynghlwm â pholisi amgylcheddol cynaliadwy, ond gall hyn fodd bynnag, fod ar draul ystyriaethau cymdeithasol a thwf economaidd. Ar hyn o bryd mae’r diwydiant amaeth mewn dirwasgiad economaidd gydag oblygiadau economaidd niweidiol, er ei gyfraniad i ddatblygiad cynaliadwy yn nhermau yr amgylchedd! Tra’n croesawu yr ysbryd cydweithredol y mae’r Cynulliad yn ceisio ei greu, mae’n bwysig ei fod yn sicrhau fod gan bob agwedd â llais pan gwneir penderfyniadau, tra’n cydnabod y bydd achlysuron pan nad yw’n bosib bodloni bob agwedd, gan nad yw’n ymarferol i fod yn amlswyddogaethol ac eithrio ar lefel gyffredinol.

**<u>Anghenion Cynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u>**

Mae’n hanfodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru adeiladu ar ei bendantrwydd i sefydlu rôl ar gyfer busnes, ochr yn ochr ac agweddau eraill. Yn y cyd-destun yma, mae NFU Cymru-Wales yn credu ei bod yn anhepgor fod y sector fusnes yn ei dro yn cydnabod ac yn ceisio wynebu problemau neilltuol micro-fusnes, megis ffermydd, ac yn arbennig busnesau yng Nghymru wledig. Yn yr achos yma byddai Cymru-Wales yn dadlau’n gryf fod cynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi ystyriaeth neilltuol i bryderon busnesau gwledig a busnesau bychain yn gyffredinol. Mae bras-gynigion y Cynulliad yn anwybyddu y problemau sy’n wynebu ffermydd yn y graddau fod y diwydiant amaeth yng Nghymru yn cael ei llywio’n helaeth gan benderfyniadau a wnaed y tu hwnt i Gymru, pa un ai o Frwsel neu fanwerthwyr lu er enghraifft. Bydd angen i gynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru, felly, ystyried sut i ddelio â sefyllfa bolisi y mae ganddynt reolaeth gyfyngedig arno.

**Atodiad 17**

**Comisiwn Coedwigaeth**

**CYNALIADWYAETH A DATBLYGIAD CYNALIADWY**

Diffiniad arfaethedig datblygiad cynaliadwy: datblygiad sydd yn cwrdd ag anghenion y presennol heb fygwth gallu cenedlaethau’r dyfodol i gwrdd â’u hanghenion nhw eu hunain. Bydd cyrraedd hyn yn gofyn am integreiddio datblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Sut y gall y Comisiwn Coedwigaeth gyfrannu?

Mae coetiroedd yn adnoddau hunan-adnewyddu a all gyfrannu tuag at dair agwedd o ddatblygiad cynaliadwy os cánt eu rheoli’n dda.

**Cymdeithasol:**

Gwerthfawrogi'r mynediad i goetiroedd at ddibenion hamdden yn ddirfawr gan gymunedau ac ymwelwyr.

Mae tystiolaeth ar gael i ddangos bod mynediad i goetiroedd yn cynnig manteision adeiladol i iechyd y genedl.

Mae coetiroedd yng Nghymru'n cynnig gwaith i breswylwyr cymunedau gwledig gan gyfrannu tuag at gynnal is-strwythur cefn gwlad.

Mae gan goetiroedd le yng ngwead diwylliannol y genedl. (gweler – Lle Coedwigaeth yn Niwylliant a Bywyd y Gymru Fodern gan Karen Henwood a Nick Pidgeon)

**Mae'r Comisiwn Coedwigaeth:**

- yn cynnig cymorthdaliadau am ddatblygiad coetir cymunedol
- yn diogelu coetir trwy gyfrwng ei bwerau rheolaethol
- yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu, cynnal a mwyhau swyddi cefn gwlad
- yn darparu mynediad i 130,000 hectar o goetir trwy Fenter Coedwigaeth
- yn cefnogi defnyddio coetiroedd fel adnoddau addysgol cyraeddadwy (trwy Fenter Addysg Coetir)

**Economaidd:**

Mae coedwigoedd a coetiroedd yn cynnal tua 4400 o swyddi yng Nghymru gan greu incwm gwariadwy o £61 miliwn.

Gall y technolegau newydd gynnig cyfle am ddatblygiad melinau llif ar raddfa fechan a phwerdai bio-tanwydd i wasanaethu anghenion cymunedau lleol gan ddefnyddio pren sydd ar gael ar hyn o bryd ond a ddefnyddir yn annigonol.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth:

- yn gweithio gyda phartneriaid i asesu'r technolegau newydd hyn a, lle'n briodol, i annog datblygiad masnachol ohonynt.
- yn ymdrechu i annog buddsoddiad mewn adnoddau prosesu ar bob lefel yn y diwydiant.
- yn cefnogi mentrau gwerth ychwanegol megis Fforwm Pren Cymru a Choed Cymru.

**Amgylcheddol:**

Mae coetiroedd yn cefnogi mwy o rywogaethau allweddol y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth nag unrhyw gynefin arall.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth:

- yn a chymunedol.

**Atodiad 18**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Coed Cymru**

**PRESENTATION TO REGIONAL COMMITTEES BY DAVID JENKINS, CO-ORDINATOR, COED CYMRU**

The broad-leaved woodlands of Wales are an important environmental asset supporting internationally significant flora and fauna.

They are valued as a component of the Welsh landscape and as places for quiet recreation. Although they are only just beginning to recover from many decades of plunder and neglect they do produce the raw material for a developing hardwood industry which we believe has the potential to become a significant exemplar of sustainable development.

Wales has approximately 70,000 hectares of broadleaf woodland, most of it in private ownership on farms. About half is oak, the remainder ash, beech, sycamore, birch, alder etc.

If all of this was managed according to best practice it could produce over 200,000 cubic metres of timber per year. Our best estimate is that they currently produce 30,000 cubic metres per year, of which perhaps 6,000 cubic metres is used in value added products like joinery, furniture and crafts, while the rest is pulp and firewood. In our last review in 1998 we could identify 266 businesses using Welsh hardwood. They provide 389 FTE jobs specifically related to this material. 344 were in manufacturing, the remainder in harvesting, etc. These figures suggest that there is significant potential for job creation based on adding value to the current harvest and even greater scope to increase the harvest.

Since 1985 and industry groups have sought to restore the fortunes of native woodlands in Wales by collaborating as Coed Cymru.

In that time methods have been developed which restore woodland diversity using natural regeneration within the forest as an alternative to clearfelling and replanting.

Sawmilling machinery and timber drying equipment has been developed based on farm machinery and basic technology. A wide range of products ranging from structural joinery to giftware has been pioneered in collaboration with research establishments and the industry. Of particular significance have been the green oak countryside furniture, hardwood flooring, laminated joinery, and Welsh Angle furniture. Turnover of these products is estimated at over £4m per annum in Wales and is growing rapidly. A number of English, Scots and Irish companies have also adopted these ideas successfully. We are currently organising a marketing initiative for Welsh hardwood products with Welsh Farm Supplies on behalf of the Welsh far co-operatives, using their retail and wholesale networks.

In the last 15 years we in Wales have moved ahead of the rest of the UK in our management of broad-leaved woodlands and our use of hardwood timbers. This has happened because farming, forestry, conservation and manufacturing interests have co-ordinated their efforts. The marketing initiative, if it is

successful, will close the circle, retaining all of the product value in the area where the raw material grew. An example of good practice in the environment, producing substantial economic and social benefits.

**Atodiad 19**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Institute of Environmental Science , University of Wales, Bangor**

**SUSTAINABLE DEVELOPMENT**

**THE ROLE OF THE UNIVERSITY OF WALES, BANGOR**

The University of Wales, Bangor has substantial expertise on sustainability and its underpinning disciplines. There is a range of views on what sustainability means and how it can be achieved in practice, and we have the full range of relevant skills from ecological to business. Critically, we can offer the Assembly objective and broadly based analyses of the issues. The expertise can be accessed (a) by consultancy, (b) by research including teaching company schemes, and (c) by students at undergraduate or masters levels, including part-time study. We are currently considering the introduction of a degree course in Sustainable Development. The relevant areas of expertise at UWB are:

**Economics:** Degrees include an MBA and undergraduate degrees in accounting, business, banking, management, marketing and economics. There are Institutes of European Finance, Economic Research, and Financial Management **.** There is a wide range of expertise on these and other areas such as risk management, Regional Development Fund, regional economic development, and tourism. These areas are being focused into a new school called Business and Regional Development.

**Social:** Range of undergraduate and postgraduate courses in social issues, with considerable expertise in local issues, social work, community studies, community care, criminal justice, public administration, penal policy and welfare law. We have a Centre for Comparative Criminology and Criminal Justice.

The **Institute of Environmental Science** is a central contact point for over 90 academic staff working on the managed and natural environment.

**Managed environment:** Agriculture, forestry and fisheries are researched and taught. The Centre for Hill and Upland Management provides a focus for land use planning and issues relevant to the uplands. The Centre for Arid Zone Studies has expertise in agriculture, land use, farmer participatory development and decision making, and related issues. Degree schemes include Environmental conservation and Rural resource management, with Masters degrees include Agroforestry, Environmental chemistry, and Shellfish biology, fisheries and culture.

**Natural environment:** Physical and biological studies of the oceans, freshwaters and terrestrial environment are heavily funded by NERC and other bodies. Particular expertise in ocean and estuarine processes (the Unit for Coastal and Estuarine Studies covers marine pollution including oil spills), climate change (including a report on impacts on Wales for the National Assembly), remediation (for example of

acid mine waste and slate tips), populations genetics (including GMOs), and plants and soils. Degree schemes include Ecology and Environmental science, and Masters degrees include Environmental chemistry and Ecology.

**Facilities** include conference centres, analytical, research and teaching laboratories, glasshouses, animal house, a research farm, and an ocean-going research vessel.

**Contact details:** You can contact individuals directly (most easily via the web: http://www.bangor.ac.uk/academic.html) or via the Institute of Environmental Science, University of Wales, Bangor, Robinson Building, Bangor, Gwynedd LL57 2UW / +44 (0) 1248 382532; environment@bangor.ac.uk / Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd, Prifysgol Cymru Bangor, Adeilad Robinson, Bangor, Gywnedd LL57 2UW

**Atodiad 20**

**World Education Project**

**The Development Education Centre for North Wales**

"The World Education Project is concerned that the emphasis in the Assembly's document is too focused on Wales itself, on reaping long term prosperity for Wales and its people, rather than on sustainable development for the whole world. Sustainable development cannot be practised in one country alone. Nearly everything that we do (eating, consuming, shopping, communicating) has an impact on the rest of the world.

We realise that there is a need to act locally towards addressing global problems but we need to make sure that the Assembly enshrines in its policy an awareness of that interdependence, and does not, through its actions, compromise the livelihoods of people and ecological balance in other parts of the world. The document therefore needs to lay an obligation on all levels of government in Wales to audit their activities with reference to their impact in this context That is, we wish to ensure Agenda 21 is fully implemented in Wales.

Secondly, as an educational organisation, we feel that it is vitally important that, not only are children given the opportunity to learn about ways of promoting world-wide sustainable development, and to act upon it, but that they also know that their country is aware of its interdependence with the rest of the world and is doing something about it."